

Cael fy anwybyddu, neu cael fy nerthu

“Yn y byd, fe gewch orthrymder, ond codwch eich calon, yr wyf fi wedi gorchfygu'r byd.” (adn. 33)

Beth am ddarlenn Ioan 16:17–33 ac yna myfyrio

Pan mae Cristnogion yn wynebu anawsterau, maent yn aml yn gofyn: “Ble mae Duw yn hyn i gyd? Beth mae Duw yn ei wneud?” Yn ôl ei arfer, mae yn barod i'n hachub gan ddwyn daioni allan o ddrygioni, i wneud byd newydd allan o'r hen fyd. Yr wyf am eich atgoffa eto ei fod wedi gwneud hynny ar y groes. Fe feddiannodd Iesu y peth gwaethaf a allai ddigwydd iddo – ei farwolaeth – gan ei wneud y peth gorau a allai ddigwydd i'r byd, hynny yw, iachawdwriaeth. Ac mae'r Iesu yn parhau i fod yn un sydd yn ein cynorthwyo i droi y gwaethaf er y gorau.

Clywais unwaith am ŵr oedd yn hedfan awyren yn y Caribî, a gofynnwyd iddo: “Beth yw'r perygl mwyaf yr wyt ti wedi ei wynebu wrth hedfan yn y rhan hyn o'r byd? Ai y corwyntoedd?” “Na,” meddai, “gallwn ddefnyddio y corwyntoedd. Maent yn symud yn ara' deg iawn yn y canol. Felly, yr ydym yn cyrraedd ei hymyl ac fe fydd gennym wynt cryf o dros gan milltir yr awr o'n plaid ni. Wrth ddod yn ôl, mi fyddwn yn ceisio cyrraedd yr ochr arall. Yr ydym yn defnyddio'r corwyntoedd wrth ddod a mynd.” Yn ein dydd ni pan mae corwyntoedd gwrthwynebiad yn wynebu'r Eglwys, gallwn ninnau hefyd ei defnyddio – wrth fynd ac wrth ddod.

Mae'n debyg y bydd y gwrthwynebiad sydd o flaen yr Eglwys yn ei dyfodol, nid yn gymaint yn wrthwynebiad corfforol, ond, yn hytrach, yn llawer mwy slei. Mae yr agwedd gyffredinol tuag at yr Eglwys yn cael ei nodweddu gan frawddeg a glywais rywun yn ei llefaru ar y radio unwaith: “Nid wyf am dynnu sylw at yr Eglwys oherwydd nid oes dim gwerth tynnu sylw ati.” Mae gwrthwynebiad corfforol yn dod ar ffurf cleddyf a chyllyll. Daw gwrthwynebiad ysbrydol yn fynych wrth i ni gael ein hanwybyddu. Mae'r ddau wrthwynebiad yn brifo. Eto, rhaid i ni sylweddoli fod y rhai sydd yn gwrthwynebu yn dioddef eu hunain, yn dioddef o wacter ystyr mewnol. Maent yn ein hanner gasáu ac eto yn hanner gobeithio y medrwn eu perswadio ein bod yn iawn. Dyma agwedd meddwl y dyn modern.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Gen. 37:1–36; 50:15–21; Ioan 8:1–11; Rhuf.8:28

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut bu i'r gwrthwynebiad a wynebodd Joseff weithio er daioni?
2. Sut bu i Iesu ddefnyddio gwrthwynebiad i ddangos trugaredd Duw?

Gweddi

O Dad, pan fyddaf yn wynebu corwyntoedd erledigaeth neu wrthwynebiad, cynorthwya fi i ddefnyddio'r gwyntoedd hynny o'm plaid wrth ddod ac wrth fynd. Dangos i mi sut mae defnyddio popeth er gwasanaethu'r Efengyl. Yn enw Iesu Grist. Amen.